Ordnance Survey®

Arolwg Ordnans®

Copïo mapiau sy'n cael eu cadw mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae Hawlfraint y Goron yn berthnasol i fapiau'r Arolwg Ordnans sy'n llai na 50 mlwydd oed.

Golyga hyn ei bod yn debygol bod copïo map yr Arolwg Ordnans (er enghraifft llungopïo, sganio, dargopïo neu printio data electronig) yn dor Hawlfraint y Goron oni bai bod copïo o'r fath ymhlith yr eithriadau a ganiateir dan *Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988* ('y Ddeddf').

Caniateir copïo cyfyngedig iawn dan y Ddeddf at ddibenion:

Astudiaeth breifat; neu

Ymchwil, beirniadaeth, adolygiad ac adroddiad newyddion anfasnachol, cyn belled â bod y gydnabyddiaeth ganlynol yn cyd-fynd ag unrhyw gopi (oni bai bod cydnabyddiaeth o'r fath yn amhosibl oherwydd rhesymau'n ymwneud ag ymarferoldeb neu resymau eraill):

© Hawlfraint y Goron. Atgynhyrchwyd â chaniatâd yr Arolwg Ordnans®; neu

Achosion seneddol neu farnwrol.

Mae'r Ddeddf yn manylu ar yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud ag unrhyw ddeunydd y mae hawlfraint yn ei ddiogelu, ac nid yw'r cyfarwyddyd a roddir uchod yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar hawliau'r Arolwg Ordnans dan y Ddeddf.

Er mwyn osgoi unrhyw anawsterau, neu os ydych am drafod unrhyw ddefnydd preifat, masnachol, proffesiynol neu fusnes arall, ffoniwch ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 08456 05 05 04.

Mae Arolwg Ordnans, Ordnance Survey a'r Symbol OS yn nodau masnach cofrestredig yr Arolwg Ordnans, asiantaeth fapio genedlaethol Prydain Fawr.

D04744W 0906